Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Cam-drin Plant yn Rhywiol

# Canllawiau Amlasiantaeth Rhanbarthol



**Ratified by Board**
**Mawrth 2026**

**Protocols & Procedures Sub Group**

**Review Date**
**Mawrth 2029**

**Cynnwys**


1. Cyflwyniad t3

2. Diben t3

3. Deddfwriaeth, polisi, a chanllawiau t4

4. Deall cam-drin plant yn rhywiol t5

4.1 Cydsyniad t5

4.2 Cam-drin rhywiol â chyswllt/heb gyswllt t6

4.3 Grŵmio t7

4.4 Cam-drin plant yn rhywiol t8

4.4.1 Cam-drin rhywiol o fewn y teulu t8

4.4.2 Cam-drin rhywiol y tu allan i'r teulu t9

4.4.3 Diogelu cyd-destunol t9

4.4.4 Cam-drin sefydliadol t9

4.4.5 Anffurfio organau cenhedlu benywod t11

4.5 Ymddygiad rhywioledig niweidiol t13

4.5.1 Ymddygiad rhywioledig niweidiol t13

4.5.2 Cam-drin gan gyfoedion t15

4.6 Camfanteisio'n rhywiol ar blant (gan gynnwys cam-drin cymhleth/cyfundrefnol) t16

4.7 Cam-drin rhywiol sy'n cael ei hwyluso gan dechnoleg t18

5. Nodi achosion o gam-drin plant yn rhywiol ac ymateb iddynt t20

5.1 Nodi achosion o gam-drin plant yn rhywiol t20

5.2 Ymddygiadau a allai beri pryder t21

5.3 Dangosyddion iechyd a allai beri pryder t22

5.4 Adnodd arwyddion a dangosyddion t23

5.5 Beth sy'n gallu cynyddu risg plentyn neu berson ifanc t23

5.6 Ymateb i achosion o gam-drin plant yn rhywiol t24

5.7 Trafodaethau/Cyfarfodydd Strategaeth t25

5.8 Archwiliadau Meddygol Amddiffyn Plant t27

5.9 Ymateb i ddatgeliadau t27

5.10 Llais y plentyn/cyfathrebu t28

5.11 Iechyd meddwl a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod t29

5.12 Eiriolaeth t30

5.13 Therapi cyn treial t30

5.14 Beth sy'n helpu i wella canlyniadau i blant t30

6. Adnoddau t31

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae ymchwil yn dangos y bydd un o bob deg plentyn yng Nghymru a Lloegr yn cael ei gam-drin yn rhywiol mewn rhyw ffordd cyn y bydd yn 16 oed. Mae cam-drin plant yn rhywiol yn golygu gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithredoedd rhywiol. Mae'n bosibl y bydd y plentyn yn gwybod ei fod yn cael ei gam-drin yn rhywiol, ond nid bob amser. Mae gwahanol fathau o gamdriniaeth, gan gynnwys cam-drin â chyswllt a heb gyswllt, camfanteisio'n rhywiol ar blant, cam-drin o fewn y teulu neu'r tu allan i'r teulu, a cham-drin gan gyfoedion. Gall cam-drin plant yn rhywiol gael effaith drawmatig a pharhaol ar blentyn, ond nid yw'r rhan fwyaf o achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn cael eu nodi sy'n golygu nad oes neb yn ymateb iddynt ychwaith.

1.2 Mae'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol yn awgrymu y gallai cam-drin rhywiol fod yr un mor gyffredin â mathau eraill o gam-drin yn ystod plentyndod, fel cam-drin emosiynol neu esgeulustod, ond mae'n llawer llai tebygol y bydd gweithwyr proffesiynol yn ei nodi. Mae'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol (Y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol) wedi tynnu sylw at y ffaith bod gan Went gyfraddau adrodd isel o ran achosion o gam-drin plant yn rhywiol, lefel isel o atgyfeiriadau a nifer isel o gofrestriadau amddiffyn plant a chaiff hyn ei gysylltu â niferoedd isel o erlyniadau troseddol ac ymchwiliadau gan yr heddlu. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae angen i ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant gael dealltwriaeth glir o'r arwyddion a all awgrymu bod plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol a'r camau y gallant eu cymryd pan fyddant yn pryderu y gallai fod plentyn yn cael, neu wedi cael, ei gam-drin yn rhywiol. Bydd helpu ymarferwyr i wella eu dealltwriaeth o gam-drin plant yn rhywiol hefyd yn helpu i sicrhau diogelwch a llesiant pob plentyn.

## 2. Diben

2.1 Mae Bwrdd Diogelu Gwent yn cydnabod yr angen i weithio mewn ffordd amlasiantaeth gydlynol i atal, nodi ac ymateb i achosion o gam-drin plant yn rhywiol. Bwriad y canllawiau hyn yw helpu ymarferwyr i gynyddu eu dealltwriaeth o'r gwahanol fathau o gam-drin plant yn rhywiol, yr arwyddion a'r dangosyddion a allai awgrymu bod plentyn yn cael ei gam-drin, a ffyrdd o ymateb sy'n diwallu anghenion plant a theuluoedd.

2.2 Mae'r canllawiau hyn wedi'u datblygu ar sail amlasiantaethol gyda mewnbwn gan awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd, yr heddlu, addysg, gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, a'r sector arbenigol. Bwriedir iddynt helpu ymarferwyr i ddefnyddio eu chwilfrydedd proffesiynol a'u barn broffesiynol, a dylid eu darllen ar y cyd â pholisïau a chanllawiau eich sefydliad eich hun mewn

perthynas â cham-drin plant yn rhywiol yn ogystal â Chanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan Gweithdrefnau Diogelu Cymru sydd ar gael yma Diogelu Cymru.

2.3 Mae'r canllawiau'n ceisio cydnabod yr heriau y mae ymarferwyr yn eu hwynebu wrth weithio gydag achosion o gam-drin plant yn rhywiol ac er y cydnabyddir na allant ddarparu atebion ar gyfer pob sefyllfa ac anhawster, y nod yw cefnogi a grymuso ymarferwyr i ddysgu mwy am y rôl y gallant ei chwarae i gefnogi ac amddiffyn plant yn y cyd-destun hwn.

2.4 Mae'r ddogfen yn gosod y cyd-destun yn gyntaf drwy amlinellu deddfwriaeth, polisi a chanllawiau perthnasol, cyn helpu ymarferwyr i gynyddu eu dealltwriaeth o'r gwahanol fathau o gam-drin plant yn rhywiol a'u cymhlethdod. Yna mae'n ystyried sut y gall ymarferwyr nodi achosion o gam-drin plant yn rhywiol ac ymateb iddynt, cyn amlinellu amrywiaeth o adnoddau.

## 3. Deddfwriaeth, polisi, a chanllawiau

### 3.1 Deddfwriaeth

Mae canllawiau statudol ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig yn tynnu sylw at gyfrifoldeb ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd i ddiogelu plant rhag pob math o gamdriniaeth ac esgeulustod, gan gynnwys cam-drin rhywiol. Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â darnau allweddol o ddeddfwriaeth yn ogystal â pholisïau a chanllawiau cenedlaethol ar gam-drin plant yn rhywiol.

Y ddeddfwriaeth allweddol sy'n ymwneud ag amddiffyn plant yng Nghymru yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r ddeddfwriaeth allweddol mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol yw Deddf Troseddau Rhywiol 2003.

Gallai darnau eraill o ddeddfwriaeth berthnasol gynnwys:

- Deddf Plant 1989
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989
- Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003
- Deddf Plant 2004
- Gorchymyn Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (Diwygio Atodlenni 3 a 5) 2007
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015
- Deddf Troseddu Difrifol 2015
- Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

### 3.2 Polisi a chanllawiau

Yng Nghymru, mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru (Diogelu Cymru) a Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 5 (Diogelu plant sydd mewn perygl o gael

eu cam-drin neu eu hesgeuluso | LLYW.CYMRU) yn ddarnau allweddol o ganllawiau i lywio ymarfer sy'n ymwneud â diogelu plant a phobl ifanc. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru hefyd yn cynnwys canllawiau ymarfer penodol mewn perthynas â gwahanol agweddau ar gam-drin plant yn rhywiol gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol, cam-drin ar-lein, a masnachu plant, sydd ar gael yma: Diogelu Cymru. Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â'r dogfennau cenedlaethol hyn.

Mae hefyd ddarnau allweddol o ganllawiau, ymchwil ac adroddiadau a all lywio ymarfer asiantaethau a sefydliadau penodol, ac a all fod yn bwynt cyfeirio defnyddiol ar gyfer rhagor o wybodaeth. Ceir enghreifftiau isod, ond nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr:

- Treisio a throseddau rhywiol - Pennod 1: Cyflwyniad | Gwasanaeth Erlyn y Goron
- Cam-drin plant yn rhywiol: Canllawiau ar erlyn achosion o gam-drin plant yn rhywiol | Gwasanaeth Erlyn y Goron
- Canllawiau i leoliadau addysg am gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion
- Adroddiad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol | Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol
- Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant - I wanted them all to notice
- Physical signs of child sexual abuse (Purple Book) - Porth Diogelu Plant y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH)

## 4. Deall cam-drin plant yn rhywiol

Mae'r adran hon yn ceisio helpu ymarferwyr i gynyddu eu dealltwriaeth o gam-drin plant rhywiol drwy ddarparu gwybodaeth am egwyddorion allweddol fel cydsyniad a grŵmio, ac amlinellu gwahanol fathau o gam-drin rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, ac ymddygiad rhywioledig niweidiol.

Er bod enghreifftiau wedi'u rhoi o dan y penawdau gwahanol hyn, mae'n bwysig cofio y gall pryderon sy'n perthyn i gategorïau gwahanol orgyffwrdd (er enghraifft, gall plentyn sydd wedi bod yn destun camfanteisio rhywiol hefyd arddangos ymddygiad rhywioledig niweidiol drwy gael ei orfodi i recriwtio plant eraill i gamfanteisio arnynt).

### 4.1 Cydsyniad

Mae cydsyniad yn gysyniad craidd wrth asesu a yw ymddygiad rhywiol yn niweidiol. Rhaid ystyried unrhyw weithgarwch rhywiol honedig sy'n ymwneud â

phlentyn dan 13 oed a phlentyn arall yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019.

Ni all plant dan 13 oed roi cydsyniad yn gyfreithiol i weithgarwch rhywiol. Bydd unrhyw un sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol gyda phlentyn sy'n 12 oed neu'n iau yn cael ei gosbi yn unol â Deddf Troseddau Rhywiol 2003. Yr oedran cydsynio yn y Deyrnas Unedig yw 16 oed (yr oedran cyfreithiol i gael rhyw).

Rhaid i gydsyniad:

- Cael ei roi'n rhydd (dim gorfodaeth na manipiwleiddio)
- Bod yn seiliedig ar wybodaeth (deall natur a chanlyniadau)
- Cael ei roi gyda galluedd (heb fod o dan ddylanwad sylweddau na phroblemau o ran galluedd meddyliol)

## 4.2 Cam-drin â chyswllt a heb gyswllt

Cam-drin â chyswllt yw pan fydd camdriniwr yn gwneud cyswllt corfforol â phlentyn neu'n gorfodi'r plentyn i wneud cyswllt corfforol â rhywun arall. Mae hyn yn cynnwys:

- cyffwrdd yn rhywiol ag unrhyw ran o gorff plentyn, p'un a yw'n gwisgo dillad ai peidio
- defnyddio rhan o'r corff neu wrthrych i dreisio neu dreiddio plentyn
- gorfodi plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol
- gwneud i blentyn ddadwisgo neu gyffwrdd â rhywun arall.

Gall cam-drin â chyswllt gynnwys cyffwrdd, cusanu a rhyw geneuol – mae cam-drin rhywiol yn golygu mwy na cham-drin treiddiol.

Cam-drin heb gyswllt yw pan fydd plentyn yn cael ei gam-drin heb i'r camdriniwr gyffwrdd ag ef. Gall hyn ddigwydd wyneb yn wyneb neu ar-lein ac mae'n cynnwys:

- dinoethi neu fflachio
- dangos pornograffi
- amlygu plentyn i weithredoedd rhywiol
- gwneud i blentyn fastyrbio
- gorfodi plentyn i wneud, edrych ar neu rannu delweddau neu fideos o blant yn cael eu cam-drin

- gwneud, edrych ar neu ddosbarthu delweddau neu fideos o blant yn cael eu cam-drin
- gorfodi plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau neu sgyrsiau rhywiol ar-lein neu drwy ffôn clyfar.

Gall cam-drin â chyswllt a cham-drin heb gyswllt gynnwys elfen o grŵmio, sy'n digwydd pan fydd rhywun yn meithrin perthynas, ymddiriedaeth a chysylltiad emosiynol â phlentyn neu berson ifanc er mwyn ei fanipiwleiddio, camfanteisio arno a'i gam-drin.

## 4.3 Grŵmio

Gall unrhyw un fod yn grŵmiwr, ni waeth beth fo'i oedran, ei rywedd na'i hil. Gall grŵmio ddigwydd dros gyfnod byr neu hir o amser – o wythnosau i flynyddoedd. Gall unigolion sy'n grŵmio feithrin perthynas â theulu neu ffrindiau'r plentyn neu'r person ifanc er mwyn gwneud iddynt ymddangos yn ddibynadwy neu'n awdurdodol. Dylid nodi hefyd y gall grŵmiwr fod yn aelod o'r teulu, yn ffrind i'r teulu, neu'n berson mewn swydd o ymddiriedaeth (er enghraifft, athro neu hyfforddwr chwaraeon). Mae'n bosibl y bydd unigolion sy'n cam-drin plant yn rhywiol yn grŵmio amgylcheddau yn ogystal â phobl fel nad oes neb yn dod i wybod am yr hyn y maen nhw'n ei wneud (Gweler Adolygiad Ymarfer Plant Gwynedd– Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru).

Mae'n bwysig nodi bod gwahaniaeth rhwng grŵmio a rheolaeth drwy orfodaeth, ac y gall troseddwyr sy'n cam-drin plant yn rhywiol wneud y ddau. Tra bod grŵmio yn canolbwyntio ar y cyflawnwr yn meithrin perthynas â'r plentyn a/neu'i deulu, mae rheolaeth drwy orfodaeth yn cyfeirio at weithred neu batrwm o weithredoedd fel ymosodiadau, bygythiadau, sarhau a bygylu neu fath arall o gamdriniaeth a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu ddychryn y dioddefwr (Cymorth i Fenywod, 2024).

Gall grŵmio ddigwydd wyneb yn wyneb neu ar-lein. Mae Canllaw Ymarfer Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 ar Ddiogelu Plant rhag Cam-drin Ar-lein yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y broses grŵmio, ac mae ar gael yma: Diogelu Cymru.

**Arwyddion o grŵmio**

Gall dangosyddion allweddol gynnwys:

- Cyfrinachedd am weithgarwch ar-lein neu eu lleoliad
- Rhoddion, arian neu eiddo anesboniadwy
- Perthnasoedd hŷn (e.e. cariad hŷn)

- Ymddygiad neu iaith rywioledig sy'n amhriodol ar gyfer eu hoedran/cam datblygu
- Newidiadau mewn hwyliau, er enghraifft, mynd yn dawedog, yn bryderus, yn ofidus – ymddygiad a allai fod yn anarferol i'r plentyn neu'r person ifanc
- Mynd ar goll neu dreulio mwy o amser i ffwrdd o gartref a gwrthod dweud gyda phwy maen nhw wedi bod neu ble maen nhw wedi bod
- Ynysu eu hunain oddi wrth ffrindiau a theulu
- Defnyddio “cyfrinachau” neu flacmel i reoli'r plentyn

## 4.4 Cam-drin plant yn rhywiol

### 4.4.1 O fewn y teulu

Gall cam-drin rhywiol o fewn y teulu gael ei ddeall fel ‘*sexual abuse by a relative, for example, a parent, stepparent, sibling or grandparent, those closely linked to the family, such as a parent’s partner, or someone within the home environment with caring responsibilities, such as a foster carer,’* (I Wanted Them All To Notice, 2024). Yn aml mae'n gorgyffwrdd â mathau eraill o gam-drin rhywiol, er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddelweddau anweddus o blant yn cael eu creu gan aelod o'r teulu.

Gall ymarferwyr wynebu anawsterau'n aml wrth nodi achosion o gam-drin plant yn rhywiol gan aelod o'r teulu. Gallai hyn ddigwydd o ganlyniad i ragfarn ddiarwybod neu stereoteipiau ynghylch dioddefwyr a'r rhai sy'n niweidio, a diffyg dealltwriaeth o grŵmio a rheolaeth drwy orfodaeth, sy'n ei gwneud hi'n anoddach i ymarferwyr nodi'r arwyddion a'r dangosyddion bod plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol. Mae'n hanfodol bod unrhyw arwyddion a dangosyddion posibl o gam-drin rhywiol yn cael eu cofnodi'n effeithiol, yn enwedig o ystyried ei bod yn anarferol i blant wneud datgeliadau eu hunain. Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn cael cymorth a'r cyfle i fyfyrio ar y maes gwaith heriol hwn trwy oruchwyliaeth dda. Gall defnyddio Pecyn Cymorth Arwyddion a Dangosyddion y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol helpu ymarferwyr i strwythuro eu meddyliau a chreu darlun o bryderon. Arwyddion a dangosyddion cam-drin plant yn rhywiol | Y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol

Pan amheuir bod plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol, rhaid i wasanaethau fod yn glir bod y trothwy ar gyfer ymateb diogelu yn wahanol i'r trothwy troseddol; mae pwysau tebygolrwydd yn ddigonol i warantu rhoi mesurau diogelwch ar waith ac nid oes angen profi camdriniaeth y tu hwnt i amheuaeth resymol. Wrth ystyried diogelu, mae hefyd yn bwysig meddwl am blant eraill y

gallai fod gan y cyflawnwr dan amheuaeth fynediad atynt, er enghraifft, o fewn y teulu estynedig, neu yn rhinwedd ei waith cyflogedig neu waith gwirfoddol.

### 4.4.2 Y tu allan i'r teulu

Gall plant gael eu cam-drin yn rhywiol gan rywun y tu allan i'r teulu hefyd. Gall hyn gynnwys plant eraill neu bobl ifanc hŷn, partneriaid agos, dieithriaid, ffrindiau teuluol neu gydnabod, pobl mewn swyddi o ymddiriedaeth (er enghraifft, athrawon, hyfforddwyr chwaraeon/drama/dawns ac ati). Gall plant hefyd fod yn destun camfanteisio rhywiol neu brofi cam-drin rhywiol mewn lleoliad sefydliadol neu gyfundrefnol. Mae rhagor o wybodaeth am gam-drin cyfundrefnol/sefydliadol ar gael isod.

### 4.4.3. Diogelu cyd-destunol

Mae diogelu cyd-destunol yn ffordd hanfodol o fynd i'r afael â cham-drin rhywiol drwy ganolbwyntio ar yr amgylcheddau lle gall cam-drin ddigwydd y tu allan i'r cartref. Mae'n cydnabod y gall plant brofi niwed mewn amrywiol leoliadau fel ysgolion, mannau ar-lein a chymunedau, sy'n golygu bod angen gweithio mewn ffordd ragweithiol i liniaru risgiau a hyrwyddo diogelwch yn y cyd-destunau hyn. Gall hyn gynnwys:

**Diogelwch ar-lein:** Mynd i'r afael â phryderon ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein, gan gynnwys creu amgylcheddau ar-lein diogel ac addysgu plant am risgiau ar-lein.

**Ysgolion:** Rhoi polisïau diogelu cadarn ar waith mewn ysgolion a hyfforddi staff i nodi pryderon yn ymwneud â cham-drin rhywiol ac ymateb iddynt. Dylid ystyried y cyd-destun lleol yn ogystal â dilyn canllawiau Cymru gyfan sydd ar gael yma: Canllawiau i leoliadau addysg am gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion.

**Gweithgareddau cymunedol:** Hyrwyddo mannau cymunedol diogel a mynd i'r afael â materion fel gangiau a llinellau cyffuriau, gan y gall y rhain wneud plant yn agored i niwed.

Mae rhagor o wybodaeth am gam-drin rhywiol y tu allan i'r teulu, er enghraifft, cam-drin sefydliadol, ar gael isod.

### 4.4.4 Cam-drin sefydliadol / Cam-drin gan bobl mewn swyddi o ymddiriedaeth

Mae'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol yn nodi bod y term cam-drin sefydliadol yn cael ei ddefnyddio i wahaniaethu rhwng y math hwn o gamdriniaeth a chamdriniaeth sy'n digwydd mewn lleoliad teuluol neu leoliad arall. Mae'r term 'sefydliad' nid yn unig yn cynnwys amgylcheddau brics a mortar fel ysgolion ac ysbytai, ond hefyd sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd mewn lleoliadau cymunedol, fel gwasanaethau gofal

cymdeithasol, clybiau chwaraeon a grwpiau crefyddol. Cafodd un o bob 10 dioddefwr a goroeswr cam-drin plant yn rhywiol â chyswllt corfforol eu cam-drin gan berson mewn swydd o ymddiriedaeth neu awdurdod.

Gall troseddau cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau sefydliadol gael eu cyflawni gan un unigolyn yn erbyn un dioddefwr, er bod gan y rhai sy'n cam-drin mewn lleoliad sefydliadol nifer o ddioddefwyr yn aml, a gall sawl person gyflawni troseddau cam-drin o fewn yr un sefydliad. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, gall camdrinwyr ddefnyddio bygythiadau a grym, ond gallant hefyd ddefnyddio gwobrau, ffafriaeth a gwahanu unigolion oddi wrth eu teulu a'u ffrindiau. Gallant hefyd geisio normaleiddio gweithgareddau a allai fod yn gamdriniol.

Pan fydd cam-drin rhywiol yn digwydd mewn lleoliad sefydliadol, yn aml iawn ni chaiff ei ddatgelu tan flynyddoedd yn ddiweddarach, os o gwbl. Mae'r sefyllfa wedi gwaethygu yn sgil llawer o achosion lle mae sefydliadau wedi anwybyddu neu guddio amheuon o gam-drin yn hytrach nac ymchwilio iddynt ac amddiffyn dioddefwyr.

Mae cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destun sefydliadol wedi dod yn bryder sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i achosion uchel eu proffil diweddar a sbardunodd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA). Dangosodd yr ymchwiliad fod sefydliadau wedi ymateb yn rhy aml i gam-drin drwy symud cyflawnwyr yn eu blaen ac wedi rhoi mwy o bwys ar amddiffyn enw da unigolion neu sefydliadau yn hytrach nag amddiffyn plant. Lle roedd polisïau diogelu yn bodoli, yn aml nid oeddent yn cael eu dilyn (Jay et al, 2022).

Gall cam-drin sefydliadol arwain at ganlyniadau ychwanegol i blant sy'n ei brofi oherwydd ei natur, gan gynnwys ymdeimlad eu bod wedi cael eu bradychu ac amharodrwydd i ofyn am help am eu bod yn ddrwgdybus o sefydliadau a/neu'r rhai mewn swyddi o ymddiriedaeth neu awdurdod. Wrth ymateb, rhaid ystyried anghenion penodol goroeswyr yn y cyd-destun hwn.

Am ganllawiau manylach ar ymateb i gam-drin sefydliadol neu gymhleth, gweler Protocol Achosion Cymhleth o Gam-drin Plant Gwent Protocol Achosion Cymhleth o Gam-drin Plant – Terfynol Rhagfyr 2022. Mae gan y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol ragor o wybodaeth hefyd: Negeseuon allweddol ymchwil i gam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau sefydliadol.

Dylid ystyried hefyd argymhellion Adolygiad Ymarfer Plant Gogledd Cymru Adolygiad Ymarfer Plant Gwynedd – Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar ôl i Bennaeth gael ei ddyfarnu'n euog o nifer o droseddau rhywiol yn erbyn disgyblion.

### 4.4.5 Anffurfio organau cenhedlu benywod

Anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM) yw pan fydd organau cenhedlu allanol benywod yn cael eu tynnu'n llwyr neu'n rhannol am resymau anfeddygol. Fe'i gelwir hefyd yn enwaediad neu dorri benywaidd. Caiff FGM ei gyflawni'n aml gan rywun heb hyfforddiant meddygol sy'n defnyddio offer fel cyllell, scalpel, siswrn, gwydr neu lafn rasel. Anaml y rhoddir triniaeth anesthetig neu antiseptig i blant ac yn aml cânt eu cyfyngu drwy rym.

Mae'r oedran y cynhelir FGM yn amrywio. Gall ddigwydd:

- pan fydd merch fach newydd gael ei geni
- yn ystod plentyndod neu lencyndod
- ychydig cyn priodi
- yn ystod beichiogrwydd.

Mae pedwar prif fath o FGM:

- Math 1 (clitoridectomi) – tynnu'r clitoris i gyd neu'n rhannol.
- Math 2 (toriad) – tynnu'r clitoris i gyd neu'n rhannol a thorri'r labia mewnol a/neu allanol.
- Math 3 (inffibwleiddio) – culhau agoriad y fagina.
- Math 4 – triniaethau niweidiol eraill ar yr organau cenhedlu benywaidd gan gynnwys pigo, tyllu, torri, crafu neu losgi (NHS Choices, 2021).

Mae ymestyn neu dynnu'r labia yn golygu ymestyn y labia minora, weithiau gan ddefnyddio ffyn, harneisiau neu bwysau (AFRUCA, 2016).

Mae FGM yn fath o gamdriniaeth ac mae'n anghyfreithlon yn y DU. Gall fod yn hynod beryglus a gall achosi niwed corfforol gan gynnwys poen difrifol, sioc, gwaedu, haint fel tetanws, HIV, Hepatitis B ac C, niwed i organau, colli gwaed a heintiau, neu mewn rhai achosion gall hyd yn oed arwain at farwolaeth y plentyn. Mae hefyd yn debygol o arwain at niwed emosiynol a seicolegol i'r plentyn.

Weithiau rhoddir rhesymau crefyddol, cymdeithasol a diwylliannol i gyfiawnhau FGM. Fodd bynnag mae'n arfer peryglus a gall achosi problemau iechyd hirhoedlog a fydd yn parhau drwy gydol oes plentyn, gan gynnwys:

- heintiau mynych neu gronig yn y fagina, y pelfis neu'r wrin
- problemau mislif

- anymataliaeth ac anhawster pasio dŵr
- niwed i'r arennau a methiant yr arennau o bosibl
- systiau a chrawniadau
- poen yn ystod rhyw
- anffrwythlondeb
- cymhlethdodau yn ystod beichiogrwydd a genedigaeth
- problemau iechyd emosiynol a meddyliol (NHS Choices, 2021).

Dylai gweithwyr proffesiynol sy'n amau bod merch neu fenyw yn wynebu risg o FGM roi gwybod i'r awdurdod lleol drwy gyflwyno ffurflen Dyletswydd i Adrodd. Dylid rhoi gwybod i'r heddlu hefyd o dan y gofyniad adrodd gorfodol. Os credir bod y plentyn neu'r fenyw yn wynebu risg uniongyrchol, dylid cysylltu â'r gwasanaethau brys. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi llunio canllawiau amlasiantaeth statudol sy'n rhoi cyngor a chymorth i weithwyr proffesiynol rheng flaen sydd â chyfrifoldebau i ddiogelu plant ac amddiffyn a chefnogi oedolion rhag y mathau o gamdriniaeth sy'n gysylltiedig ag FGM. Mae'r canllaw yn darparu gwybodaeth am:

- nodi pryd y gallai merch (gan gynnwys merch yn y groth) neu fenyw ifanc wynebu risg o FGM ac ymateb yn briodol i'w hamddiffyn
- nodi pryd mae merch neu fenyw ifanc wedi cael FGM ac ymateb yn briodol i'w chefnogi.

Gallwch wneud cais am orchymyn amddiffyn os bydd rhywun rydych chi'n ei adnabod yn wynebu risg o FGM. Bydd hyn yn helpu i gadw'r person rydych chi'n ei adnabod yn ddiogel rhag person arall. Mae canllawiau hefyd ar gael i ymarferwyr iechyd yn llwybr Clinigol Cymru Gyfan y GIG: https://wisdom.nhs.wales/all-wales-guidelines/all-wales-guidelines/fgm-clinical-pathway-v2-2-final/.

Mae angen ymateb amlasiantaeth ar unigolion sydd wedi cael FGM i ofalu am eu llesiant corfforol a meddyliol. Felly, dylai gwasanaethau ar draws y trydydd sector, amddiffyn plant, gofal iechyd, yr heddlu a'r gwasanaethau erlyn gydweithio â'i gilydd. Os ydych yn gweithio gyda phobl sydd wedi datgelu eu bod wedi cael FGM, dylech:

- creu cyfle i'r unigolyn ddatgelu drwy siarad â'r unigolyn ar ei ben ei hun ac yn breifat
- gwneud yn siŵr nad oes aelod o'r teulu na'r gymuned yn bresennol – ystyriwch ddefnyddio oedolyn priodol yn hytrach nag aelod o'r teulu wrth gyfweld ag unigolyn dan oed.

- osgoi gwneud rhagdybiaethau
- rhoi amser i'r unigolyn siarad
- bod yn sensitif i natur bersonol y pwnc
- bod yn sensitif i'r ffaith y gallai'r unigolyn deimlo teyrngarwch i'w rieni
- bod yn anfarnol
- defnyddio iaith syml a gofyn cwestiynau syml
- osgoi defnyddio terminoleg awgrymog neu sarhaus fel 'anffurfio'
- mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr – rhowch wybodaeth gywir am ddewisiadau a hawliau'r person a pharchwch ei ddymuniadau pan fo modd.

Mae'n bwysig bod pob gweithiwr proffesiynol yn gallu cyfeirio dioddefwyr yn briodol a chynnig cyngor diogelwch ar unwaith i gleientiaid. Mae hyn yn sail i waith cynllunio diogelwch manylach a gall gynnwys:

- Sicrhau bod y cleient yn gwybod y dylai ffonio 999 mewn argyfwng.
- Cadw manylion gwasanaethau arbenigol lleol a Llinell Gymorth Byw Heb Ofn wrth law i'w rhannu gyda chleientiaid.
- Cynghori'r cleient i geisio cadw ei ffôn symudol wrth law bob amser.
- Annog y cleient i ymgysylltu â gwasanaethau a all helpu'r cleient a'i blant.
- Cymryd rhan mewn trafodaethau amlasiantaeth fel Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) lleol neu'r Hybiau Diogelu Amlasiantaeth.

## 4.5 Ymddygiad rhywioledig niweidiol

### 4.5.1 Ymddygiad rhywioledig niweidiol

Mae'r term 'ymddygiad rhywioledig niweidiol' (HSB) yn disgrifio continwwm o ymddygiadau a ddangosir gan blant a phobl ifanc dan 18 oed, yn amrywio o'r rhai yr ystyrir eu bod yn 'amhriodol' ar oedran neu gam datblygu penodol i ymddygiadau 'problemus', 'camdriniol' a 'threisgar'. Gall hyn gynnwys ymddygiadau â chyswllt a heb gyswllt, cam-drin gan gyfoedion a cham-drin gan frodyr a chwiorydd, a niwed rhywiol â chymorth technoleg. Mae'n bwysig cofio y gall rhywfaint o ymddygiad rhywioledig fod yn rhan normadol o ddatblygiad plentyn a rhaid ystyried ymddygiadau yng nghyd-destun cyfnod datblygu'r plentyn neu'r person ifanc. Gellir dod o hyd i ganllawiau i helpu ymarferwyr i ddeall ymddygiadau o'r fath drwy gontinwwm Hackett Ymateb i blant sy'n

arddangos ymddygiad rhywioledig ac Offeryn Goleuadau Traffig Brook Goleuadau Traffig Brook: oedran.

Mae rhai enghreifftiau o ymddygiadau a allai fod yn arwydd o ymddygiad rhywioledig niweidiol yn cynnwys:

- Defnyddio iaith neu ystumiau rhywiol nad ydynt yn briodol i oedran y plentyn na'i gam datblygu
- Efelychu gweithredoedd rhywiol gyda theganau, gwrthrychau neu gyfoedion
- Diddordeb gormodol mewn cynnwys rhywiol neu bornograffi
- Cuddio ymddygiadau neu ddweud celwydd am ryngweithiadau
- Osgoi goruchwyliaeth neu geisio ynysu oddi wrth eraill
- Newidiadau sydyn mewn hwyliau, ymddygiad ymosodol, neu dynnu'n ôl
- Ymddygiad gorfodaethol neu ymosodol
- Gorfodi neu roi pwysau ar eraill i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol
- Anwybyddu ffiniau neu gydsyniad
- Defnyddio bygythiadau neu fanipiwleiddio mewn perthnasoedd
- Patrymau ymddygiad sy'n dod yn fwy aml neu'n fwy difrifol dros amser
- Cymryd rhan mewn sawl digwyddiad gydag unigolion gwahanol
- Lefel isel o hunan-barch neu arwyddion o iselder.

Yn gyntaf oll, mae'n bwysig bod unrhyw blentyn neu berson ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywioledig niweidiol yn cael ei ystyried fel plentyn yn gyntaf, a dylid diwallu ei anghenion am ofal a chymorth yn yr un modd ag unrhyw blentyn arall. Wrth ymateb i ymddygiad rhywioledig niweidiol, rhaid rhoi cymorth cynnar er mwyn atal niwed pellach neu atal yr ymddygiad rhag gwaethygu. Mae hefyd yn bwysig sicrhau nad yw plant a phobl ifanc yn cael eu labelu a'u stigmateiddio.

Mewn llawer o achosion, mae plant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywioledig niweidiol wedi cael profiadau niweidiol neu wedi profi trawma yn ystod plentyndod, a all gynnwys cam-drin rhywiol. Fodd bynnag, nid yw pob plentyn sy'n arddangos ymddygiad rhywioledig niweidiol wedi cael ei gam-drin yn rhywiol, ac nid yw pob plentyn sy'n cael ei gam-drin yn rhywiol yn mynd ymlaen i arddangos ymddygiad rhywioledig niweidiol. Gall ffactorau eraill hefyd ddylanwadu ar ymddygiad rhywioledig, megis rheoleiddio emosiynol, gwybodaeth a dealltwriaeth rywiol, hunan-barch, ac anghenion dysgu ychwanegol. Efallai y bydd angen asesiad er mwyn canfod beth sy'n dylanwadu ar yr ymddygiad a nodi anghenion plentyn neu berson ifanc. Dylid ystyried trefnu archwiliad meddygol amddiffyn plant ar gyfer plentyn sydd wedi arddangos

ymddygiad rhywioledig niweidiol, o ystyried y manteision holistaidd y gall y broses hon eu cynnig, yn ogystal ag ystyried dangosyddion corfforol niwed rhywiol.

**Pwysigrwydd ymateb amlasiantaeth i ymddygiad rhywioledig niweidiol**

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 yn rhoi canllawiau ynghylch y broses y dylid ei dilyn er mwyn ymateb i bryderon mewn perthynas ag ymddygiad rhywioledig niweidiol, gan gynnwys pryd mae angen llenwi ffurflen Dyletswydd i Adrodd, a phryd y dylid cynnull cyfarfod strategaeth amlasiantaeth. Bydd gan bob awdurdod lleol yng Ngwent ei weithdrefnau ei hun ar gyfer rheoli ymddygiad rhywioledig niweidiol a dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â'r prosesau hyn. Yn ogystal ag anghenion y plentyn sy'n arddangos yr ymddygiad, rhaid i unrhyw gyfarfodydd/trafodaethau strategaeth amlasiantaeth ystyried sut i gadw plant eraill sy'n byw gyda'r plentyn, neu sy'n dod i gysylltiad â'r plentyn, yn ddiogel. Dylid ystyried unrhyw fesurau rheoli risg a allai fod yn angenrheidiol. Mae'n bwysig bod y rhain yn gymesur ac nad ydynt yn stigmateiddio'r plentyn sy'n arddangos yr ymddygiadau. Mae Canllawiau Ymddygiad Rhywiol Niweidiol Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gael yma: Diogelu Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch ymddygiad rhywioledig niweidiol a gwasanaethau a all gynnig cymorth ar gael isod:

Deall ymddygiad rhywioledig mewn plant | NSPCC Learning

Plant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol | Y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol

Atal ymddygiad rhywiol niweidiol mewn plant – Stop It Now

Ymddygiad rhywiol niweidiol – Canllaw i weithwyr proffesiynol (barnardos.org.uk)

Dyfodol Gwell Cymru | Barnardo's (barnardos.org.uk)

Plant a phobl ifanc – New Pathways

### 4.5.2 Cam-drin gan gyfoedion

Gall cam-drin rhywiol ddigwydd rhwng plant o unrhyw oedran a rhyw a gall ddigwydd mewn sawl ffordd ar hyd continwwm sy'n amrywio o aflonyddu rhywiol i gam-drin rhywiol â chyswllt, gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar gyfoedion ac ymddygiad rhywiol niweidiol. Yn gynyddol, mae cam-drin rhywiol gan gyfoedion yn digwydd trwy lwyfannau digidol, sy'n golygu y gall fod yn fwy cymhleth i ymarferwyr fynd i'r afael ag ef. Mae cam-drin rhywiol gan gyfoedion yn cynnwys plant o oedrannau/grwpiau blwyddyn tebyg, tra gallai mathau eraill o ymddygiad rhywiol niweidiol gynnwys gwahaniaeth mawr mewn oedran.

Pan fydd plentyn wedi cam-drin plentyn arall yn rhywiol, mae'n bwysig bod ymatebion yn cael eu teilwra i anghenion y ddau blentyn a bod y plentyn sy'n arddangos yr ymddygiad niweidiol yn cael ei gydnabod fel plentyn yn gyntaf a bod gweithdrefnau diogelu yn cael eu dilyn wrth ymateb iddo gan y gall y plentyn hwnnw fod wedi dioddef niwed hefyd.

Dylai ymddygiadau rhywioledig gan blant gael eu hystyried ar gontinwwm o'r rhai sy'n normal ac yn ddisgwyliedig o safbwynt datblygiadol, i'r rhai sy'n amhriodol, yn broblemus, yn gamdriniol, ac yn dreisgar (Hackett, 2010). Dylai ymatebion fod yn gymesur â'r ymddygiad a ddangosir. Lle ystyrir bod ymddygiadau'n amhriodol neu'n broblemus, gall ymateb addysgol neu ataliol fod yn addas ond dylid ystyried cyflwyno ffurflen Dyletswydd i Adrodd hefyd. Lle tybir bod achosion yn gamdriniol neu'n dreisgar, byddai bob amser angen cyflwyno ffurflen Dyletswydd i Adrodd i sbarduno ymateb diogelu priodol. Gellir dod o hyd i ganllawiau i helpu ymarferwyr i ddeall ymddygiadau o'r fath drwy gontinwwm Hackett Ymateb i blant sy'n arddangos ymddygiad rhywioledig ac Offeryn Goleuadau Traffig Brook Goleuadau Traffig Brook: oedran.

Mae hefyd yn bwysig ystyried a yw digwyddiadau'n ynysig neu'n rhan o batrwm cylchol, a all gyfateb i aflonyddu rhywiol, a gall hyn ddigwydd all-lein neu ar-lein. Caiff aflonyddu rhywiol ei ddiffinio fel 'ymddygiad rhywiol annymunol parhaus' gan blentyn tuag at blentyn arall. Mae'n bwysig bod ymddygiadau o'r fath yn cael eu herio, yn enwedig o fewn lleoliadau addysg, oherwydd os na chânt eu datrys gallant greu amgylchedd lle mae ymddygiadau rhywioledig amhriodol yn cael eu normaleiddio a gallant waethygu i ddod yn gamdriniol neu'n dreisgar. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau manwl i leoliadau addysg ar gam-drin rhywiol gan gyfoedion sydd ar gael yma: Canllawiau i leoliadau addysg am gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion

### 4.6 Camfanteisio'n rhywiol ar blant (gan gynnwys cam-drin cymhleth/ cyfundrefnol)

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn fath o gam-drin rhywiol. Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio achos lle mae unigolyn neu grŵp yn manteisio ar anghydbwysedd pŵer i orfodi, manipiwleiddio neu dwyllo plentyn dan 18 oed i wneud rhywbeth rhywiol. Mae'n bosibl bod y plentyn wedi bod yn destun camfanteisio rhywiol hyd yn oed os yw'r gweithgaredd rhywiol yn ymddangos yn gydsyniol. Er enghraifft, efallai bod y plentyn wedi cael ei arwain i gredu ei fod mewn perthynas gydsyniol â'r person.

Nid yw camfanteisio'n rhywiol ar blant bob amser yn cynnwys cyswllt corfforol; gall hefyd ddigwydd trwy ddefnyddio technoleg, fel cyfryngau cymdeithasol ac

apiau gemau. Mae'n bwysig bod pobl yn cydnabod bod camfanteisio yn fath o gam-drin rhywiol.

Un o'r ffactorau allweddol a welir yn y rhan fwyaf o achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yw rhyw fath o gyfnewid (gweithgaredd rhywiol yn gyfnewid am rywbeth); i'r dioddefwr a/neu'r cyflawnwr neu'r hwylusydd.

Pan fydd rhywbeth y mae'r dioddefwr ei eisiau neu ei angen yn cael ei gynnig, ei addo neu ei roi iddo, gall y cyfnewid gynnwys gwobrau pendant fel arian, cyffuriau neu alcohol, a gwobrau anniriaethol fel statws, amddiffyniad neu ganfyddiad ei fod yn derbyn cariad neu serch.

Mae'n hanfodol cofio'r deinameg pŵer anghyfartal y tu ôl i'r cyfnewid hwn a chofio nad yw'r ffaith bod plentyn/person ifanc yn derbyn rhywbeth yn golygu ei fod yn dioddef llai. Mae hefyd yn bwysig nodi y gall atal rhywbeth negyddol hefyd gyflawni'r gofyniad am gyfnewid, er enghraifft, plentyn sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol i atal rhywun rhag cyflawni bygythiad i niweidio ei deulu.

Dim ond y cyflawnwr/hwylusydd sydd ar ei ennill, ac mae'n debygol bod hynny'n digwydd ar ffurf elw ariannol (arian, talu dyled neu nwyddau neu wasanaethau am ddim/am bris gostyngol) neu statws uwch o ganlyniad i'r cam-drin.

Os bydd pryderon bod rhywun wedi camfanteisio'n rhywiol ar blentyn, dylid atgyfeirio'r plentyn at broses y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM). Nid oes rhaid i blant sy'n ddioddefwyr gydsynio i gael eu hatgyfeirio at y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol a rhaid eu diogelu yn gyntaf ac yna eu hatgyfeirio at broses y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol.

Fframwaith yw'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer nodi ac atgyfeirio dioddefwyr posibl caethwasiaeth fodern a sicrhau eu bod yn cael y cymorth priodol.

Mae model gwneud penderfyniadau'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol wedi'i gysylltu'n annatod â strwythurau diogelu lleol er mwyn sicrhau dull mwy holistaidd o amddiffyn plant sy'n cael eu masnachu ac atal camfanteisio pellach. Mae'r broses yn sicrhau bod penderfyniadau amserol o ansawdd da yn cael eu gwneud gan bartneriaid diogelu hyfforddedig, sy'n cynnwys yr awdurdod lleol, yr Heddlu a gwasanaethau iechyd o leiaf.

Mae canllawiau pellach ar broses y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol ar gael yma Canllawiau mecanwaith atgyfeirio cenedlaethol: oedolion (Cymru a Lloegr) – GOV.UK ac mae'r ffurflen atgyfeirio ar-lein ar gael yma Rhoi gwybod am gaethwasiaeth fodern – GOV.UK

## 4.7 Cam-drin rhywiol sy'n cael ei hwyluso gan dechnoleg (gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, secstio, blacmel rhywiol, cyfryngau cymdeithasol, amlygiad i bornograffi)

Mae cam-drin plant yn rhywiol ar-lein/â chymorth technoleg yn cyfeirio at unrhyw fath o gamfanteisio neu gam-drin rhywiol yn erbyn plentyn sy'n digwydd trwy ddyfeisiau electronig, y rhyngrwyd neu lwyfannau digidol a all gynnwys:

- Rhwydweithio cymdeithasol (Facebook, Instagram)
- Microflogio (X – Twitter gynt)
- Rhannu delweddau (Instagram, Snapchat)
- Rhannu fideos (YouTube)
- Ffrydio byw (Instagram, Snapchat, Facebook)
- Negeseua gwib (WhatsApp)
- Edefynnau trafod (Reddit)
- Adolygu (Tripadvisor, Trustpilot)
- Gemau ar-lein (Minecraft, Roblox, Fortnite)
- Gwefannau chwilio am gariad (Tinder, Hinge, Bumble)

Gall cam-drin plant yn rhywiol ar-lein/â chymorth technoleg ddigwydd mewn sawl ffordd gan gynnwys:

**Cyfathrebu rhywiol**

Anfon negeseuon rhywiol neu geisio dechrau sgyrsiau rhywiol gyda phlentyn.

**Grŵmio ar-lein**

Y weithred o ddatblygu perthynas â phlentyn er mwyn ei gam-drin a chamfanteisio arno, ar-lein ac all-lein. Gellir gwneud hyn drwy lwyfannau ar-lein, fel rhwydweithio cymdeithasol, negeseua a/neu gemau ar-lein.

**Ffrydio byw**

Gall troseddwyr rhyw â phlant ddefnyddio'r dechnoleg hon i annog dioddefwyr i gyflawni neu wylio gweithredoedd rhywiol trwy gamera gwe. Gall troseddwyr hefyd ffrydio neu wylio cam-drin rhywiol â chyswllt yn fyw neu ddelweddau anweddus o blant gyda throseddwyr eraill a/neu gallant dalu hwyluswyr i ffrydio cam-drin â chyswllt yn fyw, gyda'r troseddwr yn dweud pa weithredoedd rhywiol sy'n cael eu cyflawni yn erbyn y dioddefwr.

**Delweddau anweddus o blant**

Delweddau o blentyn neu ran o blentyn y bernir eu bod yn anweddus. Mae delweddau yr ystyrir eu bod yn anweddus yn cynnwys delweddau sy'n dangos plentyn yn cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol neu mewn modd rhywiol, trwy ystum, gweithredoedd, dillad ac ati. Mae hyn yn cynnwys ffotograffau, fideos, ffug-luniau a thraws-luniadau a gellir dod o hyd i ganllawiau pellach ar raddio delweddau anweddus o blant yma: Meddu ar ffotograff anweddus o blentyn / Ffotograffau anweddus o blant.

**Delweddau gwaharddedig o blant**

Delweddau nad ydynt yn ffotograffig, er enghraifft, delweddau a gynhyrchwyd gan gyfrifiadur, deallusrwydd artiffisial (AI), Hentai neu gartwnau sy'n portreadu plentyn yn cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol, gweithred rywiol yn cael ei chyflawni ym mhresenoldeb plentyn neu ffocws ar organau cenhedlu neu anws y plentyn.

**Cynhyrchu, rhannu a meddu ar ddelweddau anweddus o blant a/neu ddelweddau gwaharddedig**

Defnyddio llwyfannau ar-lein i storio a rhannu delweddau anweddus a/neu waharddedig o blant. Gellir defnyddio llwyfannau ar-lein hefyd i helpu i gynhyrchu delweddau o'r fath, er enghraifft, sgrin-recordiad o gam-drin a gyflawnir dros ffrwd fyw.

**Camddefnyddio delweddau personol**

Y weithred o rannu delweddau neu fideos personol o rywun naill ai ar-lein neu all-lein, heb ei gydsyniad. Ni all unrhyw un o dan 18 oed gydsynio, felly mae'n anghyfreithlon tynnu, anfon, derbyn, gweld neu gadw delweddau personol o unrhyw un o dan 18 oed.

**Gorfodaeth a blacmel rhywiol ar-lein**

Math o flacmel lle mae rhywun yn bygwth cyhoeddi gwybodaeth, ffotograffau neu fideos rhywiol neu noeth, er budd rhywiol (e.e. i gael delweddau anweddus newydd o blant neu sbarduno cyfarfyddiad rhywiol), elw ariannol neu fudd personol arall. Yn aml, caiff lluniau neu fideos eu gwneud heb i'r dioddefwr sylweddoli na chydsynio i hynny. Gallai'r cyflawnwr hefyd wneud honiadau ffug fod ganddo ddeunyddiau o'r fath.

**Beth y gallwch ei wneud:**

Dysgwch pa apiau cyfryngau cymdeithasol y mae pobl ifanc yn eu defnyddio – dechreuwch sgwrs am y risgiau a ffyrdd o gadw eu hunain yn ddiogel.
Gosodiadau preifatrwydd – mae gosodiadau preifatrwydd diofyn y rhan fwyaf o apiau ar agor sy'n golygu y gall unrhyw un gysylltu â nhw a gweld yr hyn y maen nhw'n ei rannu. Gwnewch yn siŵr bod plant yn ymwybodol o bwysigrwydd gosodiadau preifatrwydd a rhannu lleoliad a bod angen iddynt eu newid eu hunain yn eu gosodiadau.
Mae gan yr NSPCC amrywiaeth o adnoddau ar-lein gyda gwybodaeth am sut i gadw plant yn ddiogel ar bob un o'r llwyfannau digidol.
Mae amrywiaeth o adnoddau sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd ac sy'n ddefnyddiol i blant/pobl ifanc, ymarferwyr, a rhieni/gofalwyr ar gael yma: https://hwb.llyw.cymru/cadwn-ddiogel-ar-lein
Enghraifft Instagram – A yw Instagram yn ddiogel i fy mhlentyn? | NSPCC

Mae unrhyw fath o gam-drin rhywiol ar-lein/â chymorth technoleg sy'n cynnwys plant yn drosedd a rhaid rhoi gwybod amdani.

## 5. Nodi achosion o gam-drin plant yn rhywiol ac ymateb iddynt

Gall fod yn anodd nodi'r mathau o gam-drin rhywiol, camfanteisio rhywiol, ac ymddygiad rhywioledig niweidiol a amlinellir uchod ac yn aml iawn ni fydd plant yn gwneud datgeliadau. Felly mae'n bwysig bod ymarferwyr yn ymwybodol o'r arwyddion a'r dangosyddion posibl a allai awgrymu bod plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol. Mae'r adran hon yn helpu ymarferwyr i ddefnyddio eu barn broffesiynol i nodi dangosyddion posibl ac ystyried ymatebion priodol.

### 5.1 Nodi achosion o gam-drin plant yn rhywiol

Gall fod yn anodd iawn nodi achosion o gam-drin plant yn rhywiol, yn enwedig am y gall plant a phobl ifanc wynebu amrywiaeth o rwystrau i ddatgelu. Mae'r rhain yn cynnwys cyfuniad cymhleth o faterion unigol, teuluol, cyd-destunol, cymdeithasol a diwylliannol. Gallai enghreifftiau gynnwys:

- Ofn amharu ar berthnasoedd teuluol neu chwalu'r teulu
- Ymdeimlad o deyrngarwch i'r sawl sy'n cyflawni'r gamdriniaeth
- Ofn na fydd neb yn eu credu, neu gael gwybod gan y cyflawnwr na fydd neb yn eu credu
- Y cyflawnwr yn dychryn y plentyn, yn ei fygwth â thrais neu'n dweud wrtho am beidio â dweud wrth neb arall
- Teimlo nad oes ganddynt unrhyw un y gallant ddatgelu'r peth iddynt, a all ddigwydd o ganlyniad i ddiffyg ymddiriedaeth, ymdeimlad o unigedd, dim cyfle

i siarad â gweithiwr cymdeithasol ar eu pen eu hunain, neu am nad ydynt wedi cael yr un gweithiwr cymdeithasol am gyfnod hir
- Teimlo cywilydd, gwarth neu euogrwydd, gan gynnwys oherwydd grŵmio
- Ddim yn deall beth oedd yn digwydd ar y pryd neu'n gweld y cam-drin fel rhywbeth normal, o bosibl oherwydd grŵmio neu gam-drin yn y gorffennol
- Meddwl nad oedd pwynt gwneud datgeliad, gan gynnwys oherwydd ymateb negyddol i ddatgeliad blaenorol neu am fod staff wedi bod yn rhan o'r cam-drin neu wedi'u cysylltu mewn rhyw ffordd â'r cam-drin
- Cael eu rhwystro gan sioc, trawma neu broblemau iechyd meddwl sydd wedi'u hachosi gan y cam-drin
- Ofn y byddai datgeliad yn effeithio ar eu lleoliad nesaf
- Ymdeimlad eu bod wedi dod o hyd i rywfaint o sefydlogrwydd neu efallai bod ganddynt hoffter at y cyflawnwr neu'r aelod o'u teulu a'u bod yn ofni colli rheolaeth dros y broses ar ôl iddynt ddatgelu.

Felly mae'n bwysig bod ymarferwyr yn ymwybodol o arwyddion a dangosyddion a allai ddangos iddynt fod plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol.

## 5.2 Ymddygiadau a allai beri pryder

Mae plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn aml yn arddangos amrywiaeth o effeithiau ymddygiadol sy'n adlewyrchu trawma, dryswch a gofid. Gall yr ymddygiadau hyn amrywio'n fawr yn dibynnu ar oedran y plentyn, ei gam datblygu, ei berthynas â'r camdriniwr, a natur y gamdriniaeth. Isod mae rhai ymddygiadau a allai beri pryder. Fodd bynnag, dylid ystyried y rhain yn eu cyd-destun.

Gall plant arddangos yr ymddygiadau canlynol:

- Tynnu'n ôl neu ynysu – osgoi rhyngweithio cymdeithasol neu fynd yn anarferol o dawel
- Ymddygiad ymosodol neu ddicter – ffrwydradau sydyn, ymddygiad herfeiddiol, neu elyniaeth
- Pryder gwahanu neu amharodrwydd i adael cwmni oedolion, yn enwedig y rhai y maen nhw'n ymddiried ynddynt
- Hunan-barch isel – teimladau o gywilydd, euogrwydd, neu ddiffyg gwerth
- Newidiadau mewn hwyliau – newidiadau cyflym mewn cyflwr emosiynol heb achos clir
- Hunllefau neu ofnau'r nos

- Gwlychu neu faeddu'r gwely (yn enwedig os nad yw'r plentyn yn arfer gwneud hynny)
- Newidiadau mewn awydd bwyd – gorfwyta neu golli diddordeb mewn bwyd
- Ymddygiadau allanoli: camddefnyddio sylweddau, ymddygiad rhywiol peryglus, troseddu
- Ymddygiadau mewnoli: tynnu'n ôl, ofn, osgoi
- Anawsterau ymlyniad a heriau wrth ffurfio perthnasoedd iach
- Ymddieithrio neu orgyflawni addysgol fel ffordd o ymdopi
- Gellir camddehongli'r ymddygiadau hyn fel herfeiddiwch neu ymddygiad gwael, yn hytrach nag arwyddion o drawma
- Perthnasoedd â chyfoedion – problemau ymddiriedaeth, ynysu, neu'n agored i gamfanteisio pellach

### 5.3 Dangosyddion iechyd a allai beri pryder

Mae rhai dangosyddion yng nghyd-destun iechyd a all beri pryder y gallai plentyn fod wedi cael ei gam-drin yn rhywiol a dylai ymarferwyr iechyd gyfeirio at y Llyfr Porffor Physical signs of child sexual abuse (Purple Book) - Porth Diogelu Plant y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH) i gael arweiniad.

Yn ogystal â hyn, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cyhoeddi canllawiau penodol i ymarferwyr yng Ngwent mewn perthynas â dafadennau anowenerol. Yn ôl y canllawiau hyn, **rhaid** ystyried camdriniaeth rywiol yn achos unrhyw blentyn sydd â dafadennau o'r fath a rhaid cyflwyno ffurflen Dyletswydd i Adrodd yn achos unrhyw blentyn sydd heb fynd drwy'r glasoed ac sydd â dafadennau gwenerol. Yn achos plant sydd wedi mynd drwy'r glasoed, rhaid ystyried y risg o gamdriniaeth rywiol a chamfanteisio rhywiol o hyd a chyflwyno ffurflen Dyletswydd i Adrodd lle bo hynny'n briodol. Pan fydd gan blentyn ddafadennau anowenerol, hyd yn oed pan nad oes datgeliad ynghylch cam-drin neu gamfanteisio rhywiol, dylid cynnal profion am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol i sicrhau nad oes ganddo heintiau eraill. I gael rhagor o wybodaeth, gweler Atodiad Un.

Dylai ymarferwyr iechyd hefyd fod yn wyliadwrus pan fydd plentyn neu berson ifanc yn cael ei hebrwng i apwyntiad iechyd gan oedolyn/person ifanc hŷn heblaw am riant neu ofalwr a defnyddio eu chwilfrydedd proffesiynol yn yr amgylchiadau hyn. Mae hyn wedi cael ei amlygu fel dangosydd risg posibl yn Adolygiad Ymarfer Plant Gogledd Cymru yn ddiweddar sy'n ymwneud â

phennaeth a fu'n cam-drin disgyblion yn rhywiol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: [Adolygiad Ymarfer Plant Gwynedd – Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru]

### 5.4 Adnodd arwyddion a dangosyddion

Diben adnodd Arwyddion a Dangosyddion y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol yw helpu ymarferwyr i nodi ac asesu arwyddion a dangosyddion posibl o gam-drin rhywiol a llunio darlun o'u pryderon. Mae'r adnodd ar gael yma: [Arwyddion a dangosyddion: Templed ar gyfer adnabod a chofnodi pryderon ynghylch cam-drin plant]

### 5.5 Beth sy'n gallu cynyddu risg plentyn neu berson ifanc o gam-drin rhywiol

**Anabledd**

Tynnodd ymchwil a gomisiynwyd gan Barnardo's yn 2015 sylw at ffactorau penodol a oedd yn golygu bod plant ag anableddau dysgu yn fwy agored i'r risg o gamfanteisio rhywiol. Roedd y rhain yn cynnwys gor-amddiffyn, dadrymuso ac ynysu cymdeithasol, a diffyg addysg a gwybodaeth hygyrch am ryw a pherthnasoedd. Dywedir hefyd fod diffyg gwybodaeth, dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a hyfforddiant, yn enwedig ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant ag anableddau dysgu.

Awgrymodd ymchwil a ariannwyd gan y Swyddfa Gartref yn 2016 fod plant ag anableddau ym mhob lleoliad yn wynebu risg uchel o drais rhywiol a bod rhai ffactorau, fel dealltwriaeth gyfyngedig o giwiau cymdeithasol a rhyngweithio cymdeithasol, yn gallu golygu bod pobl ifanc yn wynebu mwy o risg o gamfanteisio. Gall ynysu cymdeithasol hefyd wneud pobl ifanc ag anableddau yn fwy agored i grŵmio a chamfanteisio.

Ystyrir bod plant sy'n fyddar neu sydd ag anabledd corfforol deirgwaith yn fwy tebygol yn gyffredinol o gael eu cam-drin na'r rhai heb anabledd. Mae cyflawnwyr yn targedu plant sy'n fregus yn eu barn nhw, a gall hyn gynnwys plant ag anableddau. (*Child Sexual Abuse and Exploitation: Understanding Risk and Vulnerability*, Prifysgol Coventry, Awst 2021)

Mae'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol yn tynnu sylw at y ffaith bod plant anabl yn aml wedi cael eu methu gan ymarferwyr a oedd yn aml wedi dehongli bod arwyddion a dangosyddion cam-drin rhywiol yn ymwneud ag amhariadau'r plentyn, gan gynnwys anawsterau corfforol ac ymddygiadol. Yn yr un modd, roedd ymarferwyr yn camddeall ymddygiad plant a oedd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol fel arwydd o anabledd posibl, yn hytrach nag arwyddion o gam-drin rhywiol. Yn ogystal, nid oedd ymarferwyr yn cysylltu gofid emosiynol plant neu newidiadau yn eu hymddygiad yn ddigonol â'r posibilrwydd eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, hyd yn oed pan oedd hyn wedi bod yn bryder

o'r blaen. Plant ag anableddau | Yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol

**Cam-drin neu esgeulustod blaenorol**

Mae profiadau blaenorol o gam-drin (rhywiol neu fel arall) yn gysylltiedig â risg uwch y bydd plentyn yn cael ei gam-drin eto.

## 5.6 Ymateb i achosion o gam-drin plant yn rhywiol

Os bydd gennych bryderon bod plentyn yn, neu wedi, cael ei gam-drin yn rhywiol neu fod rhywun yn/wedi camfanteisio'n rhywiol arno, neu ei fod wedi bod yn rhan o ymddygiad rhywioledig niweidiol, rhaid i chi gyflwyno ffurflen Dyletswydd i Adrodd. Mae'r ffurflen Dyletswydd i Adrodd a manylion cyswllt y pum awdurdod lleol yng Ngwent ar gael yma: Rhoi gwybod am blentyn sydd mewn perygl – Diogelu Gwent. Gall y canllawiau trothwy rhanbarthol hefyd helpu ymarferwyr i ddefnyddio eu barn broffesiynol wrth wneud penderfyniadau ynghylch cyflwyno ffurflen Dyletswydd i Adrodd: Canllawiau Dyletswydd Plant i Adrodd a'r Trothwy Continwwm Cymorth Mawrth 2024.

**Os bydd angen amddiffyn plentyn ar unwaith am ei fod yn wynebu risg uniongyrchol o ddioddef niwed sylweddol, cysylltwch â'r Heddlu yn ddi-oed**.

Fel arfer mae'n briodol rhannu pryderon sydd gan ymarferwyr gyda theuluoedd, a'u hysbysu am yr adroddiad i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, **oni bai** y teimlir y gallai hynny olygu bod y plentyn yn wynebu mwy o risg o niwed, neu y gallai hynny ymyrryd â'r broses o gasglu tystiolaeth, neu unrhyw ymholiadau dilynol (er enghraifft, lle mae amheuaeth bod plentyn yn cael ei gam-drin gan aelod o'r teulu). Mae rhagor o wybodaeth am gydsyniad ar gael yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c2/c2-p16/

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ymateb i bob adroddiad am blant sy'n wynebu risg o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod. Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn casglu gwybodaeth i benderfynu pa gamau gweithredu y dylid eu cymryd. Dylid gwneud penderfyniad erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf ar ôl cael adroddiad. Dylai'r Gwasanaethau Cymdeithasol gydnabod yn ysgrifenedig eu bod wedi cael yr adroddiad o fewn saith diwrnod gwaith. Os na fydd hynny'n digwydd, rhaid i'r ymarferydd sy'n cyflwyno'r adroddiad gysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol eto. Rhaid i'r ymarferydd sy'n gwneud yr adroddiad gofnodi canlyniad unrhyw drafodaeth a'r penderfyniad dilynol.

Os penderfynir nad oes angen cymryd camau gweithredu, rhaid rhoi gwybod i'r ymarferydd o hyd. Cyfrifoldeb yr ymarferydd yw sicrhau bod ei bryderon

ynghylch plentyn sy'n wynebu risg o niwed yn cael eu cymryd o ddifrif a bod camau'n cael eu cymryd mewn ymateb iddynt. Os bydd ymarferydd yn parhau i fod yn bryderus am blentyn, dylai hysbysu ei reolwr llinell ei hun a'r person diogelu dynodedig o fewn ei sefydliad. Os bydd yr ymarferydd yn parhau i fod yn bryderus am y plentyn, dylai ddod â'r mater i sylw'r uwch-reolwr o fewn y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am ddiogelu yn yr ardal ar unwaith. Os bydd ymarferydd neu asiantaeth yn anghytuno â'r camau a gymerir gan yr awdurdod lleol, gellir ceisio arweiniad gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Gwent Protocol Aml-Asiantaeth ar gyfer Datrys Gwahaniaethau rhwng Ymarferwyr - Ionawr 2023.

**Os amheuir bod plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol, rhaid cynnal Trafodaeth/Cyfarfod Strategaeth priodol.**

## 5.7 Trafodaethau/Cyfarfodydd Strategaeth

Dylid cynnal Trafodaeth Strategaeth os bydd pryderon bod plentyn wedi arddangos ymddygiad rhywioledig niweidiol. Rhaid cynnal ymchwiliad priodol, yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019, i honiad o weithgarwch rhywiol anghydsyniol sy’n ymwneud â phlant, hyd yn oed os ydynt o oedran tebyg.

Dylai ystyriaethau allweddol y Drafodaeth Strategaeth gynnwys y canlynol, ymhlith pethau eraill:

- Sicrhau bod yr holl asiantaethau allweddol yn bresennol megis Addysg, Iechyd, y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ac unrhyw asiantaeth allweddol arall sy'n ymwneud â'r plentyn/teulu
- Pwy yw'r cyflawnwr, ydy'r plentyn hwn yn wynebu risg hefyd
- Pwy yw'r dioddefwyr, pa gymorth sydd ei angen arnynt
- Darparu gwybodaeth gefndirol berthnasol am y plentyn/person ifanc a'i deulu (y ddau)
- Ystyried barn y plentyn a'i deulu (ar gyfer y ddau os yn bosibl)
- Ystyried a oedd yr ymddygiad yn briodol i oedran neu'n peri pryder
- A oedd cydsyniad, gorfodaeth neu gyfrinachedd
- Hanes o drawma, cam-drin, neu amlygiad i gynnwys rhywiol (profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs))
- Ystyried patrymau o ymddygiad a difrifoldeb
- Rhannu gwybodaeth am nodweddion sy'n golygu bod y plentyn yn agored i niwed

- Teulu neu ofalwyr cefnogol
- Ymgysylltiad â'r ysgol a pherthnasoedd â chyfoedion
- Nodi unrhyw bryderon diogelu uniongyrchol
- A oes risg y bydd hyn yn digwydd eto
- Pa oruchwyliaeth neu gynlluniau diogelwch sydd eu hangen
- Asesu lefel y risg i'r plentyn ac eraill
- Llesiant emosiynol y plentyn a'r dioddefwr
- Penderfynu a fyddai Asesiad AIM yn briodol ar y cam hwn
- Asesiad risg i'w roi ar waith
- Efallai y bydd angen cael cydsyniad yr heddlu er mwyn trefnu gwasanaethau cymorth ar gyfer y cyflawnwr os bydd ymchwiliad troseddol ar waith.
- Ystyried pob plentyn/person ifanc
- Rhaid i'r cyfarfod fod yn amlasiantaethol – yr heddlu, yr adran gwasanaethau cymdeithasol, addysg, iechyd, y gwasanaeth troseddau ieuenctid ac unrhyw asiantaeth arall sy'n ymwneud â'r plentyn neu'r person ifanc/plant neu'r bobl ifanc.
- Os na all asiantaethau fod yn bresennol, dylid gofyn am wybodaeth ganddynt i lywio'r broses o wneud penderfyniadau
- Dylid cofnodi gwybodaeth am bob plentyn a'u hanghenion yn y cofnodion
- Os caiff ymholiadau Adran 47 eu cynnal, <u>rhaid</u> cynnal ymholiadau ac ymchwiliadau <u>ar wahân</u> mewn perthynas â'r dioddefwr a'r cyflawnwr honedig yn unol â'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod/trafodaeth strategaeth
- Ystyried camau gweithredu a mesurau diogelu clir ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc
- Ystyried unrhyw blant eraill a nodir a chyflwyno ffurflenni Dyletswydd i Adrodd yn ôl yr angen
- Ystyried a oes angen archwiliad meddygol amddiffyn plant ar gyfer y dioddefwr honedig a'r cyflawnwr honedig
- Rhaid dyrannu Gweithwyr Cymdeithasol gwahanol i'r dioddefwr a'r cyflawnwr honedig, gan gynnwys pan fyddant yn byw yn yr un aelwyd.
- Mae gan blant hawl i gael cynnig cymorth eirioli yn rhagweithiol, a dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl

- Rhaid ystyried a gweithredu cynlluniau diogelwch ar gyfer pob plentyn

**Camau Gweithredu'r Drafodaeth Strategaeth**

Os caiff ymholiadau Adran 47 eu cynnal, rhaid cynnal ymholiadau ac ymchwiliadau ar wahân mewn perthynas â'r dioddefwr a'r cyflawnwr honedig. Dylai Gweithwyr Cymdeithasol gwahanol gael eu dyrannu i'r dioddefwr a'r cyflawnwr honedig, gan gynnwys pan fyddant yn byw yn yr un aelwyd. Mae rhagor o wybodaeth am Gyfarfodydd Strategaeth ac Ymholiadau Adran 47 ar gael yma: Protocol Rhyng-asiantaeth ar gyfer Cynnal Ymholiadau Amddiffyn Plant Adran 47 – Hydref 2025

## 5.8 Archwiliadau Meddygol Amddiffyn Plant

Mewn unrhyw achos lle amheuir bod plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol, dylid ystyried cynnal archwiliad meddygol amddiffyn plant. Dylid ystyried trefnu asesiad meddygol ar gyfer pob plentyn, gan gynnwys achosion lle mae honiad o ymddygiad rhywioledig niweidiol neu niwed rhywiol gan gyfoedion lle dylid sicrhau bod y ddau blentyn/person ifanc yn cael eu hystyried ar gyfer Archwiliad Meddygol Amddiffyn Plant. Mae hefyd yn bwysig ystyried manteision holistaidd cynnal Archwiliad Meddygol Amddiffyn Plant ac nad casglu tystiolaeth fforensig yn unig yw eu diben.

Dylid cytuno ar amser a lleoliad yr archwiliad, gan ystyried lles pennaf y plentyn, gan gynnwys, lle bo modd, lais y plentyn, ac unrhyw angen am driniaeth feddygol frys, neu archwiliad fforensig. Dylid gwneud hyn gan ganiatáu digon o amser i roi unrhyw fesurau diogelu angenrheidiol ar waith o fewn oriau swyddfa. Dylid gofyn am arweiniad gan gydweithwyr iechyd a gwneud penderfyniadau amlasiantaethol.

Mae rhagor o wybodaeth am Archwiliadau Meddygol Amddiffyn Plant ar gael yma: Briffio 7 Munud (Archwiliadau Meddygol Cam-drin Plant yn Rhywiol)

## 5.9 Ymateb i ddatgeliadau

Gall datgeliadau amrywio o blentyn i blentyn ac yn aml iawn ni fydd plentyn yn gwneud datgeliad ar lafar, ond bydd yn ceisio datgelu trwy ei ymddygiad. Gall yr adnodd Arwyddion a Dangosyddion a drafodir uchod fod yn ddefnyddiol i ddeall rhai o'r ymddygiadau hyn.

Pan fydd plentyn yn gwneud datgeliad, naill ai ar lafar neu mewn ffordd arall, mae'n bwysig ymateb i hyn yn briodol. Amlinellir rhai egwyddorion allweddol isod ac mae canllawiau manylach ar gael yma: Nodi datgeliadau o gam-drin

plant yn rhywiol ac ymateb iddynt | Y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol

- Gwrandewch yn astud ac edrychwch ar iaith y corff a mynegiant wyneb
- Gwnewch nodiadau cywir gan ddefnyddio iaith/geiriau'r plentyn ei hun
- Rhowch sicrwydd i'r plentyn ei fod wedi gwneud y peth iawn drwy rannu ei bryderon
- Esboniwch i'r plentyn na allwch warantu cyfrinachedd ac y bydd angen rhannu'r wybodaeth â gwasanaethau priodol er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddiogelu
- Cofiwch beidio â stopio plentyn sydd wedi dechrau gwneud datgeliad a cheisiwch osgoi defnyddio cwestiynau arweiniol
- Gwnewch nodiadau manwl a chywir yn unol â pholisi eich asiantaeth cyn gynted â phosibl ac ystyriwch pa fesurau diogelu a allai fod yn angenrheidiol.

**5.10 Llais y plentyn/cyfathrebu**

Fel ymarferwyr, dylem ystyried barn a theimladau'r plentyn a deall yr effaith ar y plentyn a'i deulu. Mae gan blant a phobl ifanc hawl i leisio barn ar y materion sy'n effeithio arnynt. Mae angen clywed, cydnabod ac ymateb i'w llais, yn unigol ac ar y cyd.

Wrth ystyried y diffiniad o 'Lais y Plentyn' mae cwmpas y diffiniad yn llawer ehangach nag y mae'r enw'n ei awgrymu. Mae llais y plentyn yn cwmpasu babanod, plant a phobl ifanc. Mae'n golygu mwy na'r geiriau maen nhw'n eu defnyddio ond sut maen nhw'n mynegi eu barn, boed hynny drwy eiriau, distawrwydd, ymddygiadau, symbolau, crio, iaith arwyddion, lluniau, chwarae, rhyngweithiadau, gwên, cyswllt llygad, iaith y corff, mynegiant wyneb.

Ni waeth sut mae'r plentyn yn adlewyrchu ei farn, rhaid i ymarferwyr:

- Ei werthfawrogi a'i barchu
- Meithrin ymddiriedaeth
- Datblygu perthnasoedd
- Gwrando arno neu geisio dysgu am ei fywyd, ei deimladau, ei ddymuniadau, ei brofiadau bywyd dyddiol a'i farn
- Bod yn gynhwysol
- Ymgysylltu

Mae'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol wedi llunio canllaw ar gyfathrebu â phlant ac mae'n helpu i roi'r wybodaeth a'r hyder i weithwyr proffesiynol siarad â phlant am gam-drin rhywiol: Cyfathrebu gyda phlant:

Llawlyfr i rai sy'n gweithio gyda phlant sydd yn, neu efallai wedi, cael eu cam-drin yn rhywiol.

Mae Bwrdd Diogelu Gwent hefyd wedi cynhyrchu brîff 7 munud rhanbarthol ar Lais y Plentyn, sydd ar gael yma: Briffio 7 munud ar lais y plentyn

## 5.11 Iechyd meddwl a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod

Mae plant a phobl ifanc sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol yn aml yn wynebu amrywiaeth eang o effeithiau ar eu hiechyd, yn uniongyrchol ac yn y tymor hir. Gall yr effeithiau hyn fod yn gorfforol, yn seicolegol, yn ymddygiadol, ac yn gymdeithasol, a gallant barhau pan fyddant yn oedolion os na chânt eu trin â chymorth priodol.

Gall plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol a phlant / pobl ifanc sydd wedi cyflawni troseddau rhywiol fod yn anodd ac yn heriol. Gall dangosyddion o'r fath ymhlith plant a phobl ifanc gynnwys -

- Iselder a gorbryder
- Anhwylder Straen Wedi Trawma (PTSD) – gall hyd at 73% o oroeswyr sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol brofi anhwylder straen wedi trawma (iicsa.org.uk)
- Hunan-niweidio –
- Meddwl am hunan-laddiad ac ymgeisiau i ladd eu hunain – gall y risg fod hyd at chwe gwaith yn uwch na'r boblogaeth gyffredinol
- Datgysylltiad, aflonyddwch wrth gysgu ac anhwylderau bwyta
- Hunan-barch isel a methiant i reoli emosiynau

Gellir ystyried cam-drin plant yn rhywiol yn brofiad niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) a gall ddigwydd yn aml ar y cyd â phrofiadau niweidiol eraill fel gweld cam-drin domestig, rhiant yn camddefnyddio sylweddau, a rhiant sydd ag anawsterau iechyd meddwl. Gwyddom fod profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn cael effaith hirdymor ar blant ac y gallant arwain at risg uwch o orbryder, iselder, anhwylder straen wedi trawma, a straen gwenwynig, a all barhau pan fyddant yn oedolion.

Felly mae'n bwysig bod ymarferwyr yn ystyried hyn wrth gefnogi'r rhai sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol fel plant a blaenoriaethu cymorth amserol sy'n briodol i'r unigolyn a'i anghenion.

**5.12 Eiriolaeth**

Mae eiriolaeth i blant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod eu hawliau, eu lleisiau a'u hanghenion yn cael eu cydnabod a'u rhoi ar waith drwy gydol eu taith ymadfer a diogelu.

Eiriolaeth Annibynnol

- Yn cael ei darparu gan weithwyr proffesiynol hyfforddedig nad ydynt yn rhan o dimau gwasanaethau plant.
- Helpu plant i ddeall eu hawliau a'u hopsiynau.
- Eu cefnogi mewn cyfarfodydd, achosion llys, a chyfarfodydd diogelu.

Cynghorwyr Annibynnol i Blant ar Drais Rhywiol (ISVAs)

- Mae Cynghorydd Annibynnol i Blant ar Drais Rhywiol ar gael i'ch helpu tra bod yr heddlu'n ymchwilio i'r hyn sydd wedi digwydd. Bydd yn gwneud hyn drwy esbonio proses yr heddlu, esbonio eich hawliau a thrwy ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych wrth iddyn nhw godi. Bydd hefyd yn cynnig cymorth i chi yn y llys os bydd ymchwiliad yr heddlu yn mynd i dreial ac yn cynnig cymorth emosiynol ac yn cysylltu plant â gwasanaethau.

**5.13 Therapi cyn treial**

Gall dod i gysylltiad â throseddu, yn enwedig trais rhywiol, arwain at anawsterau seicolegol ac emosiynol sylweddol, a bydd therapi yn aml yn helpu dioddefwyr i ymadfer. Mae'r ofn o achosi i erlyniad troseddol fethu mewn rhai achosion wedi arwain at ohirio cymorth therapiwtig i ddioddefwyr tan ar ôl y treial ar y sail y gellid dadlau y gallai'r driniaeth fod wedi llygru tystiolaeth y dioddefwr drwy amharu ar gywirdeb ei atgofion o'r digwyddiad/digwyddiadau. Pryder damcaniaethol yw hwn ac mae'n gwrthdaro â'r angen i sicrhau bod dioddefwyr yn gallu cael triniaeth a chymorth therapiwtig effeithiol cyn gynted â phosibl i gynorthwyo eu hadferiad. Mae'r canllawiau hyn o 2022 yn nodi'n glir na ddylid gohirio therapi am unrhyw reswm sy'n gysylltiedig ag ymchwiliad troseddol neu erlyniad: Therapi cyn treial | Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Therapi Cyn Treial ar gyfer Tystion sy'n Blant – Egwyddorion Sylfaenol – Mehefin 2023

**5.14 Beth sy'n helpu i wella canlyniadau i blant**

Fel y trafodwyd uchod, gall cam-drin plant yn rhywiol effeithio ar blant mewn amrywiaeth o ffyrdd a gall yr effeithiau hyn bara am gyfnod hir yn aml, fodd bynnag mae rhai ffactorau, unigol a chymdeithasol, a all helpu i liniaru'r effaith ar ddioddefwyr-oroeswyr, ar adeg y gamdriniaeth ac yn ddiweddarach mewn bywyd.

Mae pwysigrwydd strategaeth genedlaethol wedi cael ei amlygu gan ymchwil (children_and_young_people_with_harmful_sexual_behaviours_research_review_2014.pdf) ac mae gan Lywodraeth Cymru Strategaeth Genedlaethol 10 mlynedd ar gyfer Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol. Bydd Grŵp Gorchwyl Cam-drin Plant yn Rhywiol Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gwent yn sicrhau bod y camau gweithredu o'r strategaeth hon yn cael eu rhoi ar waith ledled y rhanbarth.

Mae'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol (Effeithiau cam-drin plant yn rhywiol | Y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol) yn dangos y gall ffactorau unigol fel hunan-barch a sgiliau ymdopi helpu i wella canlyniadau, ac y gall ymgysylltu ag addysg fod yn ffactor amddiffynnol. O ran ffactorau cymdeithasol, mae'n nodi bod cymorth gan deulu a ffrindiau yn ffactor amddiffynnol allweddol.

Fel gwasanaethau, gall nodi achosion o gam-drin plant yn rhywiol ar gam cynnar ac ymateb mewn ffordd gefnogol helpu i leihau effeithiau andwyol hirdymor, fel y gall cymorth yn ystod oedolaeth. Mae adnabod ac ymateb i ddatgeliadau a/neu arwyddion a dangosyddion o gam-drin plant yn rhywiol mewn ffordd gyson a thosturiol yn un o'r pethau pwysicaf y gall ymarferydd ei wneud.

## 6. Adnoddau

- **Stop It Now - Preventing child sexual abuse**

  Cymorth dienw drwy linell gymorth Stop It Now gyda chynghorwyr arbenigol a all helpu unrhyw un sydd â phryderon ynghylch cam-drin plant yn rhywiol a sut i'w atal. Caiff ei hwyluso gan Sefydliad Lucy Faithfull.

- **Mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol o dan y drefn diogelwch ar-lein – Ofcom**

  Adnoddau a gwybodaeth sy'n anelu at atal cam-drin plant yn rhywiol ar-lein.

- **Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP) – Addysg**

  Nod tîm addysg yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yw helpu i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cael eu cam-drin yn rhywiol ar-lein trwy ddarparu hyfforddiant, adnoddau a gwybodaeth i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

- **Hafan – Canolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel y DU**

  Canolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel y Deyrnas Unedig gydag adnoddau gan gynnwys gwybodaeth am gam-drin plant yn rhywiol ar-lein drwy orfodaeth, seiberfflachio, pornograffi.

- **Report Remove | Childline**

  Mae'r adnodd hwn wedi'i gynllunio i helpu pobl ifanc dan 18 oed yn y Deyrnas Unedig i roi gwybod yn gyfrinachol am ddelweddau a fideos rhywiol ohonynt eu hunain a'u tynnu oddi ar y rhyngrwyd.

- **Cam-drin rhywiol | NSPCC**

  Gwybodaeth a chyngor gan yr NSPCC ar gam-drin plant yn rhywiol.

- **Llyfr Gwaith Boys 2 – Cymraeg**

  Llyfr Gwaith Boys 2 gan Barnardo's sy'n ceisio helpu bechgyn a dynion ifanc i feithrin perthynas rywiol iach.

- **Pennod 1**

  Canllawiau Llywodraeth Cymru ar amddiffyn plant a phobl ifanc rhag camfanteisio rhywiol.

- Sefydliad Lucy Faithfull – Atal cam-fanteisio ar blant yn rhywiol

  Cymorth i unrhyw un sydd â phryderon bod plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol.

- Hafan - Shore

  Man diogel i bobl ifanc yn eu harddegau sy'n poeni am ymddygiad rhywiol.

- **Llwybr Ymateb Cam-drin Plant yn Rhywiol | Y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol**

  Adnodd ar-lein rhyngweithiol i dywys gweithwyr proffesiynol drwy sut y gallant amddiffyn a chefnogi plant a'u teuluoedd pan fo pryderon ynghylch cam-drin rhywiol.

- New Pathways – Gwasanaethau cymorth ar gyfer cam-drin rhywiol a thrais

  Gwasanaethau cymorth arbenigol i oedolion, plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu heffeithio gan drais rhywiol, ymosodiad rhywiol neu gam-drin rhywiol

- The AIM Project – The AIM Project

  Darparwyr hyfforddiant a chyfres gynhwysfawr, gydgysylltiedig o fodelau, fframweithiau a chanllawiau ymarfer, ar gyfer plant a phobl ifanc ag Ymddygiad Rhywioledig Niweidiol.

- Better Futures Cymru | Barnardo's

  Mynediad at asesiadau ac ymyriadau therapiwtig tymor hwy i blant a phobl ifanc â hanes rhywioledig ledled Cymru, gan gynnwys pobl ifanc sydd wedi cael eu

cam-drin yn rhywiol; pobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol problemus neu niweidiol; a phobl ifanc sy'n wynebu risg neu sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol.

- Adnoddau i helpu i ganfod ac ymgysylltu â phobl ifanc sydd mewn perygl o gam-drin rhywiol a chamfanteisio rhywiol | Barnardo's

  Adnoddau a ddatblygwyd gan Barnardo's yng Nghymru i helpu i nodi ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin yn rhywiol a chamfanteisio rhywiol.

- New film exposes AI's role in online child sexual exploitation and calls for urgent global action – We Protect Global Alliance

  Fideo ac adnoddau eraill sy'n ymwneud â rôl deallusrwydd artiffisial ym maes cam-drin plant yn rhywiol plant a deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol ar-lein.

- https://cyfannol.org.uk/cy/sefydliad/gwasanaethau-trais-rhywiol-horizon/

  Cymorth cwnsela, eiriolaeth ym maes camfanteisio rhywiol a gwaith grŵp i unrhyw un sydd wedi dioddef trais rhywiol ar unrhyw adeg yn eu bywydau.

- Hafan - Hyb ACE Cymru

  Gwybodaeth am brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a gweithio gyda dull sy'n ystyriol o drawma.

- The Survivors Trust – Rape & Sexual Abuse Services UK

  Amrywiaeth o wybodaeth ac adnoddau i gefnogi gwasanaethau arbenigol ar drais a cham-drin rhywiol ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnwys llinell gymorth 24 awr.

- **Bil Troseddu a Phlismona: Deunydd cam-drin plant yn rhywiol – Taflen wybodaeth – GOV.UK**

  Gwybodaeth am ddeddfwriaeth sy'n anelu at fynd i'r afael â deunydd cam-drin plant yn rhywiol ar-lein.

**Atodiad Un: Profforma Dafadennau Anowenerol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Canllaw ar Ddafadennau Anowenerol mewn Plant
Diweddarwyd Ionawr 2026
Adolygiad: Ionawr 2028

Awduron: Dr Abigail Collis-Smith, Pediatregydd ST4

Dr Nicole McGrath, Pediatregydd Cymunedol

Jodie Witcomb, Nyrs Arweiniol ar gyfer diogelu ac amddiffyn y cyhoedd

Adnoddau a ddefnyddiwyd:

1. Physical Signs of Child Sexual Abuse (Purple book), Pennod 10, argraffiad 2024
2. Canllawiau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
3. Dr C Simpson, Pediatregydd Cymunedol Ymgynghorol, gwybodaeth gefndirol, Awst 2024

**Cefndir:**

Caiff dafadennau anowenerol eu hachosi gan y firws papiloma dynol (HPV). Mewn oedolion, mae'r cyfnod rhwng y cyfnod heintio ac ymddangosiad y dafadennau yn amrywio'n fawr, ond ymddengys ei fod yn fyrrach mewn menywod (3 mis) na dynion (11 mis). Gall dafadennau anowenerol fod yn asymptomatig, ond gallant hefyd achosi cosi, poen a gwaedu.

Mewn plant, nid yw'r cyfnod cudd rhwng cael y firws, a dangos nodweddion clinigol, yn hysbys, gyda'r data yn amrywio ac yn awgrymu cyfnodau o amser rhwng misoedd a sawl blwyddyn. Gall dafadennau anowenerol ddiflannu'n ddigymell.

**Argymhellion y Llyfr Porffor ar gyfer Ymarfer:**

- Rhaid ystyried cam-drin rhywiol yn achos unrhyw blentyn sydd â dafadennau anowenerol
- Os ceir diagnosis o ddafadennau anowenerol mewn plentyn sydd heb fynd drwy'r glasoed, rhaid atgyfeirio'r plentyn atgyfeirio at ofal cymdeithasol ac mae angen ystyried plant <5 oed fesul achos.

- Yn dilyn diagnosis o ddafadennau anowenerol mewn plant ar ôl y glasoed, dylid ystyried y risg o gamfanteisio rhywiol ac ymchwilio iddi
- Mewn plant, gall dafadennau ymddangos mewn sawl man ar y corff gan gynnwys yr ardal anowenerol trwy awtoinociwleiddio, heteroinociwleiddio a throsglwyddo drwy arwynebau
- Po hynaf yw'r plentyn sydd â dafadennau anowenerol newydd, y mwyaf yw'r angen i ystyried cam-drin rhywiol fel prif ffynhonnell y firws.
- Mewn plentyn â dafadennau anowenerol, hyd yn oed os nad oes cam-drin rhywiol wedi'i ddatgelu, dylid cynnal profion cynhwysfawr am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol i sicrhau nad oes heintiau rhywiol eraill yn bresennol gan gynnwys BBV, gan brofi am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol ar yr organau cenhedlu ac mewn mannau eraill i eithrio haint aml-safle.

**Datganiad tystiolaeth o'r llyfr porffor:**

- Mewn naw astudiaeth, roedd 12%–58% o blant â dafadennau anowenerol wedi cael eu cam-drin yn rhywiol
- Mae presenoldeb dafadennau anowenerol mewn plentyn yn awgrymu ei fod wedi cael ei gam-drin rhywiol pan fo trosglwyddiad fertigol a throsglwyddiad rhywiol gwirfoddol yn annhebygol yn glinigol
- Nid yw'r dystiolaeth yn helpu i sefydlu ar ba oed y gellir diystyru'r posibilrwydd o drosglwyddiad fertigol

